# Y Pwyllgor Busnes

**Cofnodion BC(3)32-08**

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 2 Rhagfyr 2008

**Amser:** 8.30 a.m.

**Lleoliad:** Ystafell Gyfarfod 4ydd Llawr, yr Uned Gorfforaethol

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol**

Dafydd Elis-Thomas, Llywydd (Cadeirydd)

Carl Sargeant, Prif Chwip

Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru

William Graham, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr Cymreig

Peter Black , Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

**Swyddogion yn bresennol**

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad

Marion Stapleton, Swyddfa Arweinydd y Tŷ

Sulafa Halstead, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau

Marc Wyn Jones, Clerc y Pwyllgor Busnes

**1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau**

1.1 Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi cael ymddiheuriadau am absenoldeb gan Kirsty Williams.  Croesawodd Peter Black a oedd yn ei chynrychioli, yn unol â Rheol Sefydlog 10.42.

**2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**(i) BC(3)31-08 (Cofnodion drafft) - Dydd Mawrth 25 Tachwedd 2008**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r pwyllgor ar eu ffurf ddrafft. Awgrymwyd gwelliant iddynt, a gâi ei gynnwys cyn i'r cofnodion gael eu cyfieithu yn barod i gael eu cyhoeddi.

**Cam i'w gymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

2.2 Cytunodd y Pwyllgor Busnes yn ei gyfarfod ar 25 Tachwedd, i ail-edrych ar fater Pwyllgor Craffu ar waith y Prif Weinidog. Awgrymwyd fod 4 cadeirydd y prif bwyllgorau craffu yn ffurfio'r pwyllgor, ac y caiff ei gadeirio gan gadeirydd y Pwyllgor Archwilio. Gofynnodd Arweinydd y Tŷ a fyddai modd i'r Pwyllgor Busnes drafod y mater eto yn ei gyfarfod nesaf yn dilyn ymgynghori gyda grwpiau gwleidyddol.

**3. Busnes i ddod**

**Busnes yr wythnos hon  - BC(3)32-08(p1)**

3.1 Cytunodd y pwyllgor na ddylai'r cyfnod pleidleisio ddigwydd cyn 5pm ddydd Mawrth a dydd Mercher.

3.2 Cytunodd y pwyllgor ar drefn busnes ar gyfer 2 a 3 Rhagfyr  2008.

**Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)32-08(p2)**

3.3 Nododd y pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth am y tair wythnos nesaf.

**Amserlen Busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth am y 3 wythnos nesaf - BC(3)32-08(p3)**

3.4 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i drefnu Cynnig i fabwysiadu'r Cynllun Cyhoeddi Enghreifftiol fel y cyhoeddwyd gan y Comisiynydd Gwybodaeth ar 10 Rhagfyr.

3.5 Cytunodd y pwyllgor ar drefn Busnes y Cynulliad.

3.6 Cytunodd y pwyllgor ar drefn Busnes heblaw Busnes y Llywodraeth.

**4. Trefn Busnes**

**Papur ar ddadleuon am Ddatganiadau Barn - BC(3)32-08(p4)**

4.1 Trafododd y Pwyllgor Busnes bapur pellach oedd yn nodi'r weithdrefn ar gyfer ystyried Datganiadau Barn yn ystod Cyfarfodydd Llawn. Dywedodd Rheolwyr Busnes fod y drefn yn debyg i'r drefn ar gyfer y Ddadl Fer a gofynasant a fyddai modd i swyddogion ymchwilio i'r opsiynau ar gyfer unrhyw system newydd i gymryd lle'r Ddadl Fer o dro i dro. Cytunwyd y byddai'r pwyllgor yn trafod y mater hwn eto yn y flwyddyn newydd.

**5 Deddfwriaeth**

**Papur ar Bwyllgorau Deddfwriaeth Parhaol - BC(3)32-08(p5)**

5.1 Trafododd y Pwyllgor Busnes bapur ar Bwyllgorau Deddfwriaeth Parhaol. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Rheolwyr Busnes:

- ddarparu enwau enwebeion i'r ail Bwyllgor Deddfwriaeth erbyn diwedd dydd Llun 8$^{fed}$ Rhagfyr fel y gellir sefydlu'r pwyllgor cyn diwedd y tymor;
- darparu enwau enwebeion i'r Pwyllgorau Deddfwriaeth eraill cyn gynted ag y bo modd;
- ystyried yr amseroedd sydd ar gael a phwyllgorau eraill yn cyfarfod; a
- cytuno pa Grŵp fydd yn cadeirio pa bwyllgor.

5.2 Cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddai Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 yn dod o'r grŵp Llafur, ac y byddai'r cadeiryddion sy'n weddill yn cael eu dyrannu yn ôl maint y grŵp (hy byddai Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5 yn cael ei gadeirio gan Aelod o'r Democratiaid Rhyddfrydol).

**Papur ar gyfeirio Deddfwriaeth i Bwyllgor Deddfwriaeth Parhaol Rhif 1- BC(3)32-08(p6)**

5.3 Cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddai'r Llywydd yn ysgrifennu at gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, i gyfeirio Mesur Caeau Chwarae Dai Lloyd a Mesur Ailgylchu Nerys Evans ar gyfer ystyriaeth Cyfnod 1.

**Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor ar y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig Tai Fforddiadwy: Cais am gyfarfod ychwanegol - BC(3)32-08(p7)**

5.4 Ystyriodd y Pwyllgor Busnes gais gan y Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig Tai Fforddiadwy i gynnal cyfarfod ffurfiol ychwanegol i ystyried adroddiad y Pwyllgor ar Faterion Cymreig ar y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol. Cytunwyd y byddai'r Llywydd yn ysgrifennu at y pwyllgor i esbonio mai mater ydoedd i'r pwyllgor LCO i benderfynu sut y dymunai ystyried y Gorchymyn ond nad oedd amseru cyflwyno'r Gorchymyn drafft yn ddibynnol ar fod y pwyllgor wedi cwblhau unrhyw ystyriaeth bellach, ac y byddai'r pwyllgor yn peidio â bodoli unwaith y bo'r Gorchymyn drafft wedi'i gyflwyno.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**